

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 236 (Cymru) – 17 Ebrill 2019

Etholiad Senedd Ewrop: y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd

Cyn etholiad Senedd Ewrop, byddwn yn cynnal ymgyrch i gofrestru pleidleiswyr er mwyn annog ceisiadau cyn y dyddiad cau, sef dydd Mawrth 7 Mai.

Bydd yr ymgyrch yn cael ei lansio yn ystod wythnos 22 Ebrill drwy hysbysebu digidol, wedi'i phwysoli'n fwy ar gyfer yr ardaloedd hynny nad ydynt yn cynnal etholiadau lleol ym mis Mai - yn enwedig Cymru, yr Alban a Llundain. Bydd y gweithgarwch hwn hefyd yn targedu'r grwpiau y gwyddom nad ydynt yn cofrestru'n ddigonol (gan gynnwys myfyrwyr, y sawl sydd wedi symud yn ddiweddar a rhai cymunedau BME) yn ogystal â dinasyddion dramor.

Darllendir hysbysebion teledu yn yr wythnos cyn y dyddiad cau i gofrestru, gan dargedu cynulleidfa eang o oedolion ledled y DU er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad a'r ymwybyddiaeth fwyaf.

Ategir hyn oll gan wybodaeth a gyhoeddir ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, a thrwy weithgarwch Cysylltiadau Cyhoeddus, a'n gwaith gyda phartneriaid.

Caiff rhagor o wybodaeth ei chynnwys mewn Bwletinâu yn y dyfodol, a bydd diweddariadau am ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gael drwy ein cylchlythyr, Y Gofrestr. Os nad ydych eisoes wedi tanysgrifio, gallwch wneud [yma](#).

Etholiad Senedd Ewrop: cyngor y tu allan i oriau yn ystod cyfnod yr etholiad

Byddwn yn darparu gwasanaeth cyngori y tu allan i oriau dros y ffôn er mwyn ymdrin ag ymholiadau gweinyddu etholiadau brys yn y cyfnod yn arwain at etholiadau Senedd Ewrop mis Mai 2019 ac yn syth wedyn, ac roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i'ch atgoffa am sut y gallwch gysylltu â ni.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

[Etholiad Senedd Ewrop: y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd](#)

Gwybodaeth am yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd y bydd y Comisiwn yn ei chynnal yn fuan.

[Etholiad Senedd Ewrop: cyngor y tu allan i oriau yn ystod cyfnod yr etholiad](#)

Gwybodaeth ar sut y gallwch gysylltu â ni am gyngor yn ystod cyfnod yr etholiad.

[Arsylwyr achrededig: nodyn atgoffa am newid i'r cynllun](#)

Nodyn atgoffa am newidiadau i'n cynllun arsylwyr, gan gynnwys dolenni at ddyluniad newydd y bathodyn a chanllawiau i arsylwyr.

[Y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd: rhoi hysbysebion neu 'hybu' eich negeseuon ar Facebook - nodyn atgoffa am broses ddilysu hysbysebion gwleidyddol Facebook](#)

Nodyn i'ch atgoffa am newidiadau i reolau Facebook, gan gynnwys manylion ei broses 'dilysu hysbysebion'.

[Diwygio'r canfas: Arolwg manylion cyswllt Swyddfa'r Cabinet](#)

Cysylltu â ni yn ystod oriau swyddfa arferol

Byddwn ar gael rhwng 08:30 a 17:30 drwy gydol cyfnod yr etholiad i'ch cefnogi fel arfer.

Os byddwch yn cysylltu â ni yn ystod oriau swyddfa arferol, defnyddiwch ein **Llinell Cyngori a Chyfarwyddyd Cymru a'r Iaith Gymraeg 0333 103 1929**.

Neu, e-bostiwch ni yn: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Cysylltu â ni y tu allan i oriau gwaith arferol

Mae'r gwasanaeth cyngori y tu allan i oriau yn cynnwys penwythnosau a dydd Gwener y Groglith (19 Ebrill), dydd Llun y Pasg (22 Ebrill) a Gŵyl y Banc cyntaf mis Mai (dydd Llun 6 Mai).

Yn ogystal, bydd gwasanaeth 24 awr y dydd ar gael ar y diwrnod pleidleisio, a thrwy gydol penwythnos dydd Sadwrn 25 Mai a dydd Sul 26 Mai.

Gellir cysylltu â ni y tu allan i oriau swyddfa drwy ffonio: 07824 464350

Arsylwyr achrededig: nodyn atgoffa am newid i'r cynllun

Diweddariadau i'r cynllun a dyluniad y bathodyn

Yn dilyn yr adolygiad o'r cynllun arsylwyr achrededig y llynedd, y cawsoch y wybodaeth ddiweddaraf amdano ym [Mwletin 228](#), roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i'ch atgoffa am y prif newidiadau a wnaed i'r cynllun:

- Mae nawr yn bosibl gwneud cais i ddod yn arsylwr achrededig [ar-lein](#).
- Rydym wedi [diweddarau bathodynnau Adnabod arsylwyr achrededig](#). Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn llawlyfrau'r gorsafoedd pleidleisio ar gyfer yr etholiad, a byddem yn eich annog i dynnu sylw staff sy'n gweithio yn y gorsafoedd pleidleisio a'r lleoliadau cyfrif at y bathodynnau newydd.
- Rydym wrthi'n llunio canllawiau newydd i arsylwyr etholiadol, a fydd [ar gael yn fuan](#). Nod y canllawiau hyn yw helpu arsylwyr etholiadol pan fyddant yn cynnal ymweliadau arsylwi.
- Rydym yn cyflwyno system adborth wirfoddol ar gyfer arsylwyr, a fydd ar gael ar ein [gwefan](#) yn fuan.

Rhestrau o arsylwyr achrededig

Rydym yn cyhoeddi enwau'r holl arsylwyr, yn unigolion ac yn sefydliadau, ar ein [gwefan](#).

Mae ein [Cod Ymarfer](#) yn tynnu sylw arsylwyr at y ffaith y gallai rhoi gwybod ymlaen llaw pa leoliadau y maent yn bwriadu arsylwi arnynt eu helpu i wneud arsylwadau mwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i arsylwyr etholiadol roi gwybod ymlaen llaw ble y maent yn bwriadu arsylwi ac maent yn rhydd i gynnal ymweliadau dirybudd

Gwybodaeth am arolwg Swyddfa'r Cabinet a dolenn iddo.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Fe'u defnyddir fel un ffordd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadau](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau o ran staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [danysgrifio](#) ar unrhyw adeg.

Y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd: rhoi hysbysebion neu 'hybu' eich negeseuon ar Facebook - nodyn atgoffa am broses ddilysu hysbysebion gwleidyddol Facebook

Fel y nodir ym [Mwletin 232](#), mae Facebook wedi gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y cynhelir hysbysebion 'sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth neu faterion o bwysigrwydd cenedlaethol'. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys hysbysebion sy'n ymwneud ag 'unrhyw etholiad, refferendwm neu fenter pleidleisio, gan gynnwys ymgyrchoedd gwlebodaeth etholiadau'.

Golyga hyn fod rheolau newydd Facebook hefyd yn gymwys i negeseuon a gyhoeddir i godi ymwybyddiaeth o bleidleisiau sy'n digwydd yn eich ardal chi. Dylech sicrhau felly fod unrhyw un sy'n cynnal hysbysebion neu'n hybu negeseuon ar eich rhan yn cwblhau proses 'dilysu hysbysebion' Facebook.

Sut ydych yn gwneud hyn?

Mae Facebook wedi llunio [canllaw cam wrth gam](#) i chi ei ddilyn. Mae'r broses yn un syml, ac ar ôl ei chwblhau, bydd eich hysbysebion yn dwyn argraffnod digidol 'ariannwyd gan' sy'n dangos i'r sawl sy'n ei gweld mai chi sydd wedi ariannu'r hysbyseb.

Sut olwg sydd ar yr argraffnod?

Mae'r 'argraffnod' newydd yn rhan bwysig o dryloywder ymgyrchu digidol. Rydym wedi cwblhau'r broses ac mae pob un o'n [hysbysebion Facebook](#) bellach yn dwyn yr argraffnod 'Ariannwyd gan y Comisiwn Etholiadol'. Nid yw'r argraffnod digidol yn dangos unrhyw fanylion am y person a ddilyswyd yn unigol i gynnal yr hysbyseb.

[Diwygio'r canfas: Arolwg manylion cyswllt Swyddfa'r Cabinet](#)

Yn ddiweddar, cynhaliodd Swyddfa'r Cabinet [arolwg](#) i gasglu'r manylion cyswllt cywir ar gyfer eich awdurdod er mwyn iddi gyfathrebu â chi ynghylch diwygio'r canfas.

Os nad ydych wedi cwblhau'r arolwg eto, mae Swyddfa'r Cabinet wedi gofyn eich bod yn gwneud hynny erbyn **dydd Gwener 19 Ebrill**.

Mae'r arolwg yn gofyn am y canlynol:

- Prif gyswllt ar gyfer diwygio'r canfas (Enw, e-bost a rhif ffôn)
- Ail gyswllt ar gyfer diwygio'r canfas (Enw, e-bost a rhif ffôn)
- Cyswllt TG ar gyfer diwygio'r canfas (Enw, e-bost a rhif ffôn)

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

